# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa o Law i Law**

**Towyn Road Physiotherapist**
**Heol Towyn**
**Blaenau Ffestiniog**
**LL41 3UR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa o Law i Law

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | O Law i Law cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad ers iddo gael ei gofrestru ar 1 Rhagfyr 2021. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn gwneud dewisiadau o ran sut i dreulio eu hamser. Maent yn hyderus ac yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad gan eu bod yn cael gofal gan staff sy'n gyfarwydd iddynt ac y maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt, ac maent yn canolbwyntio'n dda ar dasgau.

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Fodd bynnag, mae'r staff weithiau'n darparu sudd i'r plant ac nid yw hyn yn cydymffurfio â'r arferion gorau cyfredol.  Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Maent yn rhyngweithio mewn modd pwyllog a chadarnhaol ac yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau chwarae ysgogol i'r plant i'w helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant ddysgu a meithrin eu sgiliau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu am y byd o'u cwmpas drwy ddarparu amrywiaeth dda o ddeunyddiau naturiol ac wedi'u hailgylchu ac eitemau bywyd go iawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant priodol i gefnogi plant a'u hanghenion unigol. Maent yn sicrhau bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith er mwyn diogelu'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r plant a'u teuluoedd.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac maent yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Maent yn symud yn rhydd o amgylch y gweithgareddau sydd ar gael ac yn arwain a chyfarwyddo eu chwarae eu hunain drwy gydol y dydd. Mae'r plant wedi ffurfio cydberthnasau agos â'r staff ac yn teimlo'n hyderus i fynd atynt am dawelwch meddwl pan fydd ei angen arnynt, gan wybod y bydd yn cael ei roi'n ddi-oed, heb gwestiwn. Er enghraifft, pan oeddent wedi blino neu newydd ddeffro ar ôl bod yn cysgu. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod y staff yn parchu pob ymgais ganddynt i gyfathrebu, ac yn gwrando'n astud ar yr hyn sydd gan y plant i'w ddweud. Er enghraifft, mae'r plant yn awyddus i rannu eu straeon â'r staff neu i dynnu sylw at bethau sydd o ddiddordeb iddynt yn ystod eu hamser chwarae. Maent yn gwenu wrth i'r staff ddangos brwdfrydedd mawr wrth ymateb i'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

Mae'r plant yn amlwg yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn hyderus i fynd at ymwelwyr i drafod yr hyn maent yn ei wneud. Maent yn hyderus i fynegi eu dymuniadau a'u hanghenion i'r staff ac yn gwybod y bydd eu dymuniadau'n cael eu parchu. Er enghraifft, pan ofynnodd un plentyn am gael chwarae yn yr ardal chwarae blêr, gwnaeth y staff ei helpu ar unwaith i wisgo'i ffedog a llenwi'r cynwysyddion â thywod gwlyb a deunyddiau synhwyraidd. Mae bron pob un o'r plant yn awyddus i rannu eu cyflawniadau ac i gynnwys y staff yn eu chwarae gan eu bod yn gwybod y byddant yn ymateb yn frwdfrydig. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn i aelod o'r staff ddod i chwarae â'r toes chwarae, ac ymatebodd yr aelod hwnnw o'r staff yn frwdfrydig gan sgwrsio â'r plentyn am yr hyn yr oedd am ei greu. Roedd y plentyn yn awyddus i ddangos y pryf cop roedd wedi'i greu gan ddefnyddio'r toes a'r ffyn i'r staff a gwenodd yn falch wrth i'r staff ei ganmol.

Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau gyda'r plant eraill. Er enghraifft, roedd y plant yn cydweithio er mwyn gosod y traciau trên pren at ei gilydd, gan ychwanegu coed a thai pren i greu'r dirwedd o amgylch y trac. Roeddent yn sgwrsio'n fywiog ac yn rhoi cyfarwyddyd i'w gilydd wrth chwarae, gan gymryd eu tro wrth wthio eu trenau a'u ceir ar hyd y trac. Roedd y plant yn mwynhau defnyddio eu dychymyg i chwarae yn yr ardal chwarae awyr agored hefyd. Roeddent yn rhyngweithio'n llawn cyffro wrth iddynt esgus eu bod ar y trên, gan ofyn i'r plentyn a oedd yn gyrru'r trên i'w cludo i leoliadau gwahanol.

Mae bron pob un o'r plant yn awyddus iawn i archwilio eu hamgylchedd ac maent yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael. Er enghraifft, roedd grŵp o blant yn mwynhau tynnu lluniau ac arbrofi â'r deunyddiau crefft gwahanol yn yr ardal greadigol. Roeddent yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau ac yn canolbwyntio, gan gymryd eu tro i ddefnyddio'r pinnau ffelt a'r brwshys paent gwahanol. Roedd grŵp o blant iau yn mwynhau archwilio'r teganau cerddoriaeth synhwyraidd a'r pramiau i'r doliau. Roeddent yn canolbwyntio'n dda wrth osod cownteri yn y teganau er mwyn gwneud iddynt chwarae alaw ac yn mwynhau dewis doliau i eistedd yn y pramiau cyn eu gwthio'n llawn cyffro o amgylch yr ystafell chwarae.

Caiff pob plentyn ei annog a'i gefnogi i wneud pethau drosto'i hun. Maent yn cwblhau tasgau hunanofal yn annibynnol, ac yn cael cymorth os bydd ei angen. Mae pob plentyn yn arwain ac yn cyfarwyddo ei chwarae ac yn dewis adnoddau fel y mynna. Mae hyn oherwydd bod y teganau a'r gweithgareddau wedi'u gosod mewn ffordd sy'n galluogi'r plant i gael gafael arnynt yn hawdd ac yn annibynnol.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn hyderus o ran eu dyletswyddau i ddiogelu plant; mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran y camau cywir i'w dilyn pe byddai ganddynt bryder am blentyn. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel pe byddai angen gwneud hynny, drwy gynnal ymarferion tân rheolaidd. Mae'r ymarferion hyn wedi'u dogfennu'n dda mewn cofnodlyfr penodol. Mae gan y rhan fwyaf o'r staff dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol a chaiff unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau eu cofnodi'n effeithiol a'u rhannu â'r rhieni.

Mae'r staff yn annog ffyrdd iach o fyw drwy ddarparu digon o gyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff a threulio amser allan yn yr awyr iach. Caiff hylendid da ei hyrwyddo, gyda'r staff yn annog ac yn cefnogi pob plentyn i olchi ei ddwylo yn ôl yr angen. Mae amrywiaeth o fyrbrydau iach ar gael i'r plant ac mae systemau effeithlon ar waith i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ofynion deietegol unigol y plant. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom enghreifftiau o'r staff yn rhoi sudd i'r plant. Mae'r canllawiau cyfredol yn awgrymu mai dim ond dŵr neu laeth y dylid ei roi i'r plant i'w yfed.

Mae'r staff yn siarad mewn ffordd gynnes a charedig â'r plant. Maent yn rhoi cysur a thawelwch meddwl pan fydd eu hangen ar y plant ac yn eu trin â pharch. Maent yn annog rhyngweithio cadarnhaol gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol ac effeithiol iawn, gan roi cyfarwyddiadau clir wrth esbonio i'r plant pan nad yw eu hymddygiad yn briodol. Er enghraifft, pan nad oedd y plant am rannu'r teganau, roedd y staff yn eu helpu i gyfaddawdu er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael tro, gan egluro'n dawel pam ei bod yn bwysig rhannu. Roedd y staff yn dangos esiampl o sut i ryngweithio'n gadarnhaol drwy gydol y dydd, gan roi digon o ganmoliaeth i'r plant am ymddygiad da, am gwblhau gweithgareddau ac am roi cynnig ar bethau newydd.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gallu ymateb yn effeithiol i'w hanghenion unigol. Gofynnir am fanylion cynhwysfawr am ddewisiadau ac anghenion unigol y plant cyn iddynt ddechrau a defnyddir y wybodaeth hon i gynllunio amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau ysgogol i'r plant. Mae'r staff yn cynnal arsylwadau rheolaidd ar y plant a chedwir gwybodaeth yn deillio o'r arsylwadau hyn yng nghofnodion dysgu unigol y plant. Mae gan y staff systemau effeithiol ar waith i gyfathrebu â'r rhieni, gan eu hysbysu'n rheolaidd am amser eu plentyn yn y lleoliad. Caiff dyddiaduron dyddiol unigol eu cwblhau er mwyn rhannu gwybodaeth â'r rhieni am y gweithgareddau mae'r plant wedi cymryd rhan ynddynt, faint o fwyd y maent wedi'i fwyta, eu hamseroedd cysgu, manylion am eu hanghenion o ran mynd i'r toiled, unrhyw newidiadau i'w hwyliau a chyflawniadau'r plant. Mae hyn yn sicrhau bod y rhieni yn cael digon o fanylion am amser eu plant yn y lleoliad.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn blaenoriaethu diogelwch y plant ac yn sicrhau bod y staff yn dilyn gweithdrefnau yn effeithiol i ddiogelu'r plant. Er enghraifft, mae'r staff yn gofyn i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd ac maent yn sicrhau bod y safle, gan gynnwys yr ardaloedd awyr agored yn ddiogel. Mae hyn yn atal unrhyw fynediad heb awdurdod i'r safle. Mae'r staff yn cadw cofrestr gywir o bresenoldeb y plant, gan gynnwys amseroedd cyrraedd a gadael pob plentyn. Caiff cofnodlyfr electronig ar wahân ei gadw er mwyn nodi amseroedd cyrraedd a gadael pob aelod o'r staff. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith. Mae'r rhain yn amlinellu unrhyw risgiau posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerwyd i reoli neu ddileu'r risgiau hyn. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff unrhyw gamau gweithredu gofynnol eu cwblhau'n brydlon, gan sicrhau y caiff yr holl beryglon posibl eu monitro a'u rheoli'n effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda a'i bod yn groesawgar. Mae'r ystafelloedd chwarae wedi'u trefnu'n dda ac wedi'u haddurno'n ddeniadol mewn lliwiau niwtral a chan ddefnyddio deunyddiau naturiol lle y bo'n bosibl. Er enghraifft, mae pwyslais ar ddefnyddio teganau pren, deunyddiau naturiol ar gyfer adeiladu, eitemau go iawn yn yr ardaloedd chwarae rôl a basgedi o wiail i storio teganau. Mae enghreifftiau o waith y plant wedi'u harddangos ar y waliau, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r arddangosfeydd hyn wedi cael eu haddurno'n ddeniadol â hesian a dail, sy'n ychwanegu at estheteg naturiol yr ystafelloedd chwarae. Mae'r teganau a'r adnoddau yn cael eu cadw'n drefnus a chânt eu storio ar lefelau isel er mwyn i'r plant allu dewis ohonynt yn annibynnol. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn darparu amrywiaeth addas o gyfleoedd i'r plant archwilio a chwarae er mwyn datblygu eu dychymyg a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae ardal chwarae dŵr, cyfarpar dringo, darnau rhydd a chegin fwd ar gael i'r plant eu harchwilio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau sydd mewn cyflwr da ac sy'n briodol ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant. Maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, a'u glanhau'n rheolaidd. Caiff cofnodion cywir eu cadw o ran pryd y caiff y teganau a'r adnoddau eu glanhau, sy'n galluogi'r staff i sicrhau bod y tasgau hyn yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Mae'r celfi a'r adnoddau wedi cael ystyriaeth ofalus ac o faint addas ar gyfer oedrannau'r plant a fydd yn eu defnyddio. Mae'r toiledau yn cynnwys cyfleusterau addas, gyda sinciau a thoiledau isel i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Hefyd, mae dewis o gyfarpar ar gael er mwyn helpu'r plant iau i ddatblygu, megis potiau, stepiau, cyllyll a ffyrc a chyfarpar crefft hawdd dal gafael ynddynt. Mae'r rhain mewn cyflwr da hefyd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gweledigaeth glir â'r staff ac mae ganddynt amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, sy'n cyfrannu'n effeithiol at redeg y lleoliad yn hwylus. Maent yn adolygu'r polisïau hyn yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn rhoi disgrifiad clir a chywir o'r gwasanaeth a gynigir. Mae hyn yn golygu y gall rhieni wneud penderfyniad gwybodus o ran p'un a yw'r lleoliad yn diwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn ai peidio.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad drefniadau cadarn i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn gofyn yn rheolaidd am adborth ar lafar gan y rhieni yn ogystal â thrwy anfon holiaduron adborth at y rhieni a'r staff. Caiff adborth ei gasglu hefyd gan y plant drwy siarad â nhw ac arsylwi arnynt yn ddyddiol. Wedyn, bydd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llunio adroddiad mewn ymateb i'r adborth a gafwyd, gan nodi unrhyw welliannau a wnaed hyd yma a'r rhai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant a chymorth rheolaidd i gyflawni eu rolau yn effeithiol, ac i'w galluogi i gefnogi anghenion unigol y plant. Mae ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr, gan ddangos bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd ffeiliau'r staff a welsom yn cynnwys cofnodion o hanes cyflogaeth llawn pob aelod o'r staff. Fodd bynnag, cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad eu bod wedi cael eu cynnwys. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu mynd at y person cofrestredig neu'r person â chyfrifoldeb ar unrhyw adeg i drafod unrhyw broblemau neu anghenion hyfforddiant. Caiff cofnodion o'r cyfarfodydd goruchwylio a'r gwerthusiadau blynyddol eu cadw yn ffeiliau unigol y staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod bob amser yn bodloni'r gofynion o ran y nifer gofynnol o staff â chymwysterau addas i ofalu'n ddiogel am y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni'n effeithiol. Maent yn cadw tystiolaeth mewn ffeiliau o'r wybodaeth sy'n cael ei choladu gan y rhieni am anghenion penodol eu plant, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Maent yn anfon ffotograffau rheolaidd at y rhieni gan ddefnyddio ap ar-lein a chaiff dyddiaduron dyddiol eu cwblhau sy'n nodi manylion am ddatblygiad y plant a'u hamser yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n agos gyda'r rhieni ac asiantaethau allanol wrth gynllunio i ddiwallu anghenion unigol y plant. Maent yn sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant i ymdrin â chyflyrau meddygol penodol ac yn cydgysylltu â thimau meddygol er mwyn sicrhau y gallant ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau mai dim ond llaeth neu ddŵr a ddarperir i'w yfed yn unig yn unol â Chanllawiau Bwyd a Maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/03/2024